UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru – Cronfa'r Môr A Physgodfeydd Ewrop 2014-2020

# CANLLAWIAU AR DOR RHEOLAU DIFRIFOL A THWYLL

MEDI 2016

© Crown copyright 2016
Digital ISBN: 978-1-4734-7569-4

Cynnwys Paragraff


Cyflwyniad........................................................................................................ 1

Diffiniadau........................................................................................................ 4

Anghymhwysedd.............................................................................................. 11

Gweithredwyr sydd wedi cyflawni tor rheolau difrifol............................................ 14

Cychod sydd wedi'u cynnwys yn rhestr cychod IUU yr Undeb.............................. 17

Anghymhwysedd ceisiadau gan weithredwyr sydd wedi'u cynnwys yn rhestr cychod IUU yr Undeb. ........................................................................................ 18

Anghymhwysedd ceisiadau gan weithredwyr mewn trydedd gwlad nad yw'n cydweithredu.. 19

Anghymhwysedd ceisiadau gan weithredwyr sydd wedi cyflawni twyll yng nghyd-destun yr EFF neu'r EMFF.......................................................................... 20

Anghymhwysedd ceisiadau gan weithredwyr sydd wedi cael eu collfarnu o droseddau amgylcheddol penodedig ..................................................................... 22

Darpariaethau cyffredin ...................................................................................... 26

Cyfrifo'r cyfnod o anghymhwysedd lle mae'r gweithredwr yn berchen ar fwy nag un cwch pysgota ............................................................................................... 26

Trosglwyddo perchnogaeth.................................................................................. 29

Tynnu'r drwydded pysgota'n ôl yn barhaol............................................................ 31

Diwygio'r cyfnod o anghymhwysedd ..................................................................... 33

Atodiad A: Tabl o Dor Rheolau Difrifol i ddibenion Erthygl 90(1) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009

Atodiad B: Categorïau o droseddau amgylcheddol o dan gyfarwyddeb 2008/99/EC

## Cyflwyniad

1. Er mwyn sicrhau nad yw cyllid cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd (UE) a'r Deyrnas Unedig (DU) yn cael ei ddosbarthu i'r sawl sydd wedi cael eu collfarnu o dor rheolau difrifol neu sydd wedi cyflawni twyll, mae'r UE wedi llunio rheoliadau sy'n disgrifio'r rhai hynny na fydd yn gymwys i gael cyllid o dan y cynllun.

2. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi amlinellu yn Rheoliad y Comisiwn (EU) 2015/288 y rheolau ar anghymhwysedd ar gyfer cynllun Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF).

3. Mae'r canllawiau hyn yn disgrifio sut y mae'r rheolau hynny'n cael eu gweithredu'n ymarferol ac mae'n cynnwys manylion ar sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod y sawl sy'n gwneud cais am gyllid yn gymwys i wneud hynny.

## Diffiniadau

4. Mae "EFF" yn golygu Cronfa Pysgodfeydd Ewrop fel yr amlinellir yn Rheoliad y Cyngor (EC) 1198/2006.

5. Mae "EMFF" yn golygu Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop fel yr amlinellir yn Rheoliad (EU) 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor.

6. Bydd "Twyll" yn golygu:

   - unrhyw weithred neu anwaith bwriadol sy'n gysylltiedig â defnyddio neu gyflwyno datganiadau neu ddogfennau anwir, anghywir neu anghyflawn, sy'n arwain at gamddefnyddio neu gadw ar gam gronfeydd o gyllideb gyffredinol y Cymunedau Ewropeaidd neu gyllidebau sy'n cael eu rheoli gan, neu ar ran y Cymunedau Ewropeaidd
   - peidio â datgelu gwybodaeth sy'n mynd yn groes i ymrwymiad penodol sy'n cael yr un effaith
   - camddefnyddio cronfeydd o'r fath i ddibenion heblaw'r rhai y'u caniatawyd ar eu cyfer yn wreiddiol
   - fel yr amlinellir yn Erthygl 1 o Ddeddf y Cyngor 26 Gorffennaf 1995 sy'n llunio'r Confensiwn ar ddiogelu buddiannau ariannol y Cymunedau Ewropeaidd (O.J. 95/C 316/03).

7. Mae "rhestr cychod IUU" yn golygu'r rhestr o gychod sydd wedi'u marcio fel rhai sydd wedi pysgota'n anghyfreithiol, heb ei gofnodi neu ei reoleiddio fel a geir yn Erthygl 27 Rheoliad y Cyngor (EC) 1005/2008.

8. Mae "Gweithredwr" yn golygu'r unigolyn naturiol neu gyfreithiol sy'n gweithredu neu sy'n dal unrhyw ymgymeriad sy'n cyflawni unrhyw rai o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gam o gynhyrchu, prosesu, marchnata, dosbarthu a chadwynau manwerthu cynnyrch pysgodfeydd a dyframaeth.

9. Mae "Pwyntiau am dor rheolau difrifol" yn golygu pwyntiau sy'n cael eu haseinio i ddeiliad trwydded pysgota neu i feistr cwch pysgota yn unol ag Erthygl 92 o Reoliad y Cyngor (EC) 1224/2009.

10. Mae "Tor rheol difrifol" yn golygu unrhyw weithred sy'n dod o fewn y diffiniadau a geir yn Erthygl 42 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1005/2008 neu Erthygl 90 o Reoliad y Cyngor (EC) 1224/2009, Rheoliadau Pysgota Môr (Pwyntiau ar gyfer Meistri Cychod Pysgota) 2014 (SI Rhif 3345) ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn Atodiad A.

## Anghymhwysedd

11. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ar gyfer grantiau'r EMFF hysbysu Llywodraeth Cymru os ydynt wedi cael eu collfarnu gan lys ag awdurdodaeth droseddol yn y DU o unrhyw rai o'r troseddau canlynol:

    - Trosedd a arweiniodd at bwyntiau am dor rheolau difrifol fel y'i diffinnir gan Erthygl 90(1) o Reoliad y Cyngor (EC) 1224/2009 ac fel yr amlinellir yn Atodiad A o'r canllawiau hyn
    - Unrhyw drosedd[1] o dwyll sy'n gysylltiedig â chyllid Ewropeaidd
    - Trosedd amgylcheddol sy'n dod o fewn un o'r categorïau o droseddau a amlinellir yn Atodiad B o'r canllawiau hyn.

12. Bydd yr wybodaeth a roddir uchod, os o gwbl, yn cael ei dilysu bob amser gan Lywodraeth Cymru. Dylai ymgeisydd hefyd fod yn ymwybodol y bydd ymchwiliadau'n cael eu gwneud i gadarnhau bod unrhyw wybodaeth a roddir mewn perthynas â chais am gyllid EMFF yn gywir.

13. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwrthod unrhyw gais lle bydd unrhyw un o'r sefyllfaoedd canlynol yn codi.

## Gweithredwyr sydd wedi cyflawni tor rheolau difrifol

14. Pan fo awdurdod cymwys wedi barnu bod gweithredwr wedi cyflawni tor rheol difrifol, bydd ceisiadau am gymorth EMFF gan y gweithredwr hwnnw'n anghymwys am gyfnod o 12 mis o'r penderfyniad swyddogol cyntaf gan awdurdod cymwys sy'n aseinio pwyntiau am dor rheolau yn dilyn collfarn am dor

[1] Tybir fod trosedd o dwyll wedi'i chyflawni yn y cyd-destun hwn lle mae'r troseddwr wedi bod yn destun ymchwiliad troseddol sydd wedi arwain at gosb droseddol ar ffurf rhybudd ysgrifenedig swyddogol (neu gosb gyfatebol e.e. rhybuddiad gan yr heddlu), cosb weinyddol ariannol sydd wedi cael ei derbyn, neu sydd wedi cael ei gollfarnu gan lys ag awdurdodaeth droseddol o drosedd o dwyll neu bod y ffeithiau'n dod o fewn un neu ragor o'r diffiniadau uchod.

rheol difrifol. I ddibenion cyfrifo’r cyfnod anghymwys, dim ond tor rheolau difrifol a gyflawnwyd ar ôl 1 Ionawr 2013 a gaiff eu hystyried.

15. Fodd bynnag, yn achos tor rheolau difrifol sydd wedi arwain at bwyntiau am dor rheolau difrifol, bydd y cyfnod o anghymhwysedd yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

    Os, ar adeg y cais am gyllid o dan y cynllun EMFF, bydd cyfanswm y pwyntiau tor rheolau sydd wedi’u crynhoi gan weithredwr yn achos cwch pysgota yn

    - 8 neu lai, bydd yr ymgeisydd yn dal yn gymwys i gael cyllid
    - Os yw nifer y pwyntiau tor rheolau gan weithredwr yn achos cwch pysgota yn 9 pwynt, bydd y cyfnod o anghymhwysedd yn 12 mis

    - Yn achos pob pwynt sy’n fwy na 9 bydd cyfnod o 1 mis yn ychwanegol yn cael ei ychwanegu.

    Gweler yr enghraifft isod:

| Nifer y pwyntiau tor rheolau | Y cyfnod o anghymhwysedd |
| --- | --- |
| 9 | 12 mis |
| 10 | 13 mis |
| 11 | 14 mis |
| 12 | 15 mis |
| 13 | 16 mis |
| Am bob pwynt tor rheol ychwanegol | Cynnydd o 1 mis yn y cyfnod hwn. |

16. Y man cychwyn ar gyfer y cyfnod o anghymhwysedd y cyfeirir ato uchod fydd dyddiad y penderfyniad swyddogol cyntaf gan awdurdod cymwys sy’n aseinio pwyntiau tor rheol yn dilyn collfarn am dor rheol difrifol sydd wedi golygu bod y gweithredwr hwnnw wedi cael cyfanswm o 9 o bwyntiau neu fwy, yn achos cwch pysgota.

**<u>Cychod sydd wedi’u cynnwys yn rhestr cychod IUU yr UE</u>**

17. Nid yw cychod sydd wedi’u cynnwys ar restr cychod IUU yr UE neu sydd wedi’u cofrestru mewn gwlad sydd wedi’i rhestru fel trydedd gwlad nad yw’n cydweithredu, gan yr UE yn gymwys i wneud cais am gyllid grant o dan y cynllun EMFF.

**<u>Anghymhwysedd ceisiadau gan weithredwyr sydd wedi’u cynnwys yn rhestr cychod IUU yr Undeb</u>**

18. Bydd y cyfnod o anghymhwysedd ar gyfer gweithredwr y mae ei gwch pysgota wedi’i gynnwys yn rhestr yr Undeb o gychod sydd wedi cymryd rhan mewn pysgota anghyfreithlon, heb ei gofnodi a heb ei reoleiddio (IUU) yn isafswm o 24

mis, o’r dyddiad pan fydd y cwch pysgota'n cael ei gynnwys ar y rhestr honno ac am yr holl gyfnod tra bydd y cwch pysgota ar y rhestr.

**Anghymhwysedd ceisiadau gan weithredwyr mewn trydedd gwlad nad yw’n cydweithredu**

19. Bydd gweithredwyr y mae eu cwch wedi ei gofrestru mewn trydedd wlad nad yw’n cydweithredu yn anghymwys am isafswm o 12 mis ac yn ystod yr holl gyfnod pan fo’r wlad honno wedi’i rhestru.

**Anghymhwysedd ceisiadau gan weithredwyr sydd wedi twyllo yng nghyd-destun yr EFF neu’r EMFF**

20. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn barnu bod gweithredwr wedi twyllo yng nghyd-destun yr EFF neu’r EMFF, bydd pob cais am gymorth EMFF gan y gweithredwr hwnnw’n anghymwys o ddyddiad y penderfyniad swyddogol cyntaf sy’n penderfynu bod twyll wedi’i gyflawni, tan ddiwedd cyfnod cymhwysedd yr EMFF sy’n para hyd 31 Rhagfyr 2023.

21. Bydd collfarn am ysgogi, cynorthwyo ac annog yn fwriadol yr ymddygiad y cyfeirir ato yn y paragraff uchod hefyd yn arwain at gyfnod o anghymhwysedd.

**Anghymhwysedd ceisiadau gan weithredwyr sydd wedi cael eu collfarnu o droseddau amgylcheddol penodedig**

22. Ni fydd ymgeisydd am gyllid yr EMFF sydd wedi cael ei gollfarnu o droseddau amgylcheddol penodedig sy’n dod o fewn y categorïau o droseddau a amlinellir yng Nghyfarwyddeb 2008/99/EC Senedd a Chyngor Ewrop (gweler Atodiad B) yn gymwys i gael cyllid grant. Bydd anghymhwysedd ceisiadau gan y gweithredwr yn cael ei weithredu hyd yn oed os yw’r ddedfryd am y drosedd yn cael ei gohirio neu os yw ei gweithredu’n ddibynnol ar gyflawni amodau eraill.

23. Bydd collfarn am ysgogi, cynorthwyo ac annog yn fwriadol yr ymddygiad y cyfeirir ato yn y paragraff uchod hefyd yn arwain at gyfnod o anghymhwysedd.

24. Bydd y fformwla ganlynol yn cael ei defnyddio i gyfrifo’r cyfnod o anghymhwysedd:

    Y gosb a roddwyd / Uchafswm y gosb x Cyfanswm hyd y Cyfnod Cymwys

25. Cyfanswm hyd y Cyfnod Cymwys yw o 01 Ionawr 2014 hyd 31 Rhagfyr 2023

**Darpariaethau cyffredin**

**Cyfrifo’r cyfnod o anghymhwysedd lle mae’r gweithredwr yn berchen ar fwy nag un cwch pysgota**

26. Pan fydd gweithredwr yn berchen ar neu’n rheoli mwy nag un cwch pysgota, bydd cyfnod anghymhwysedd cais gan y gweithredwr hwnnw’n cael ei benderfynu ar wahân yn achos pob cwch pysgota unigol, yn unol â’r rhestr o droseddau yn Atodiad A.

27. Fodd bynnag, bydd ceisiadau am gymorth EMFF gan y gweithredwr hwnnw hefyd yn anghymwys os yw:

- Ceisiadau mewn perthynas â mwy na hanner y cychod pysgota sy’n eiddo i neu sy’n cael eu rheoli gan y gweithredwr hwnnw’n anghymwys. Er enghraifft, os yw gweithredwr yn berchen ar 3 chwch ac y bernir fod 2 o’r cychod hynny’n anghymwys trwy anghymhwysedd a amlinellir yn y canllawiau hyn, yna bydd y gweithredwr hwnnw’n gwbl anghymwys i gael cymorth EMFF

- Os yn achos troseddau o dor rheolau difrifol a restrir ym mhwyntiau 1, 2 a 5 y tabl yn Atodiad A, yw nifer cyfartalog y pwyntiau a roddir i bob cwch pysgota sy’n eiddo i’r ymgeisydd yn 7 neu fwy.

28. Er enghraifft, os yw gweithredwr yn crynhoi 7 neu fwy o bwyntiau trwy beidio â chyflawni ymrwymiadau i gofnodi ac adrodd data ar ddalfeydd neu sy’n gysylltiedig â dalfeydd, gan gynnwys data sy’n cael ei drosglwyddo trwy system fonitro lloeren y cwch neu ddefnyddio offer sy’n waharddedig neu nad yw’n cydymffurfio yn ôl deddfwriaeth yr UE neu godi ar fwrdd, trosglwyddo o gwch i gwch neu gadw pysgod llai na’r maint a ganiateir yn groes i’r ddeddfwriaeth sydd mewn grym bydd y gweithredwr hwnnw’n gwbl anghymwys i gael cymorth EMFF.

**<u>Trosglwyddo perchnogaeth</u>**

29. Yn achos gwerthu neu fath arall o drosglwyddo perchnogaeth cwch pysgota ni ddylai unrhyw gyfnod o anghymhwysedd gael ei drosglwyddo i’r perchennog newydd. Gall anghymhwysedd ceisiadau gan y perchennog newydd ddeillio’n unig o dor rheolau difrifol newydd a gyflawnwyd gan y perchennog newydd.

30. Fodd bynnag, os oes pwyntiau tor rheolau’n cael eu rhoi am dor rheolau difrifol o fewn tabl 2 a thabl 3 a gyflawnwyd cyn newid perchnogaeth y cwch pysgota, bydd y pwyntiau hyn yn cael eu cadw mewn cof i ddibenion cyfrifo cyfnod anghymhwysedd y perchennog newydd, os yw’r gweithredwr hwnnw’n cyflawni tor rheol difrifol newydd.

**<u>Diddymu trwydded pysgota’n barhaol</u>**

31. Bydd crynhoi 90 o bwyntiau tor rheolau gan ddeiliaid y drwydded pysgota’n arwain yn awtomatig at ddiddymu’r drwydded pysgota’n barhaol.

32. Pan fydd trwydded pysgota gweithredwr wedi cael ei diddymu’n barhaol yn achos unrhyw gychod pysgota sy’n eiddo i neu sy’n cael eu rheoli gan y

gweithredwr hwnnw **bydd pob cais** gan y gweithredwr hwnnw'n anghymwys i gael cymorth gan yr EMFF o ddyddiad eu diddymu tan 31 Rhagfyr 2023.

**Diwygio'r cyfnod o anghymhwysedd**

33. Ar yr amod bod y cyfnod o anghymhwysedd yn para am gyfanswm o 12 mis o leiaf, bydd y cyfnod o anghymhwysedd:

34. Yn cael ei **leihau** o 2 fis os, yn achos troseddau am dor rheolau difrifol a restrwyd ym mhwyntiau 1, 2 neu 5, 2 bod pwyntiau tor rheol yn cael eu dileu am un o'r rhesymau canlynol:

    (a) mae'r cwch pysgota a ddefnyddiwyd i gyflawni'r tor rheol lle rhoddwyd pwyntiau wedyn yn defnyddio VMS neu gofnodion ac wedyn yn trosglwyddo llyfr log pysgota trosglwyddo o gwch i gwch a data datganiad glanio'n electronig heb fod yn ddarostyngedig i'r technolegau hyn yn gyfreithiol

    (b) mae deiliad y drwydded pysgota ar ôl i'r pwyntiau gael eu haseinio iddo'n gwirfoddoli i gymryd rhan mewn ymgyrch wyddonol i wella detholedd yr offer pysgota

    (c) mae deiliad y drwydded pysgota'n aelod o fudiad cynhyrchwyr ac mae deiliad y drwydded pysgota'n derbyn cynllun pysgota a fabwysiadwyd gan y mudiad cynhyrchwyr yn y flwyddyn ar ôl i'r pwyntiau gael eu haseinio sy'n cynnwys lleihad o 10% yng nghyfleoedd deiliad y drwydded pysgota i bysgota

    (d) mae deiliad y drwydded pysgota'n ymuno â physgodfa sy'n rhan o gynllun ecolabelu sydd wedi'i gynllunio i ardystio ac i hyrwyddo labelu ar gyfer cynnyrch o bysgodfeydd morol sy'n cael eu rheoli'n dda ac sy'n rhoi pwyslais ar faterion sy'n gysylltiedig â defnydd cynaliadwy o adnoddau pysgodfeydd.

35. Bydd yn cael ei **ymestyn** 12 mis am bob trosedd ychwanegol am dor rheol difrifol a restrir yn Atodiad A a gyflawnwyd gan yr ymgeisydd yn ystod y cyfnod o anghymhwysedd.

36. Trwy randdirymiad o baragraff (a), bydd anghymhwysedd yn cael ei ymestyn 1 mis yn ychwanegol am bob pwynt yn fwy na 9, am bob tor rheol difrifol ychwanegol a gyflawnwyd gan yr ymgeisydd, yn ystod y cyfnod o anghymhwysedd.

# Atodiad A: Tabl o dor rheolau difrifol i ddibenion Erthygl 90(1) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009.

| Rhif | Tor rheol difrifol | Pwyntiau |
|---|---|---|
| 1 | Peidio â chydymffurfio â rhwymedigaethau i gofnodi daliad neu ddata sy'n gysylltiedig â dalfeydd, gan gynnwys data i gael ei drosglwyddo trwy system lloeren sy'n monitro cychod (Erthygl 90 paragraff 1 o'r Rheoliad Rheoli mewn cydweithrediad ag Erthygl 42 paragraff 1(a) ac Erthygl 3 paragraff 1(b) o Reoliad (EC) Rhif 1005/2008) | 3 |
| 2 | Defnyddio offer gwaharddedig neu nad yw'n cydymffurfio â deddfwriaeth yr UE (Erthygl 90 paragraff 1 o'r Rheoliad Rheoli mewn cydweithrediad ag Erthygl 42 paragraff 1(a) ac Erthygl 3 paragraff 1(e) o Reoliad (EC) Rhif 1005/2008) | 4 |
| 3 | Anwirio neu guddio marciau, hunaniaeth neu gofrestriad (Erthygl 90 paragraff 1 o'r Rheoliad Rheoli mewn cydweithrediad ag Erthygl 42 paragraff 1(a) ac Erthygl 3 paragraff 1(f) o Reoliad (EC) Rhif 1005/2008) | 5 |
| 4 | Cuddio, ymyrryd â neu waredu tystiolaeth sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad (Erthygl 90 paragraff 1 o'r Rheoliad Rheoli mewn cydweithrediad ag Erthygl 42 paragraff 1(a) ac Erthygl 3 paragraff 1(g) o Reoliad (EC) Rhif 1005/2008) | 5 |
| 5 | Codi ar fwrdd y cwch, trosglwyddo o un cwch i'r llall neu lanio pysgod rhy fychan yn groes i'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym (Erthygl 90 paragraff 1 o'r Rheoliad Rheoli mewn cydweithrediad ag Erthygl 42 paragraff 1(a) ac Erthygl 3 paragraff 1(i) o Reoliad (EC) Rhif 1005/2008) | 5 |
| 6 | Ymgymryd â gweithgarwch pysgota yn ardal y mudiad rheoli pysgodfeydd rhanbarthol mewn ffordd sy'n anghydnaws â neu sy'n mynd yn groes i fesurau cadwraeth a rheoli'r sefydliad hwnnw (Erthygl 90 paragraff 1 o'r Rheoliad Rheoli mewn cydweithrediad ag Erthygl 42 paragraff 1(a) ac Erthygl 3 paragraff 1(k) o Reoliad (EC) Rhif 1005/2008) | 5 |
| 7 | Pysgota heb drwydded ddilys, awdurdodaeth neu ganiatâd a roddwyd gan Wladwriaeth y faner neu'r Wladwriaeth arfordirol berthnasol (Erthygl 90 paragraff 1 o'r Rheoliad Rheoli mewn cydweithrediad ag Erthygl 42 paragraff 1(a) ac Erthygl 3 paragraff 1(a) o Reoliad (EC) Rhif 1005/2008) | 7 |
| 8 | Pysgota mewn man caeedig neu yn ystod tymor caeedig heb neu ar ôl cyrraedd cwota neu y tu hwnt i ddyfnder caeedig (Erthygl 90 paragraff 1 o'r Rheoliad Rheoli mewn cydweithrediad ag Erthygl 42 paragraff 1(a) ac Erthygl 3 paragraff 1(c) o Reoliad (EC) Rhif 1005/2008) | 6 |
| 9 | Pysgota wedi'i gyfeirio at stoc sy'n destun moratoriwm neu lle mae pysgota wedi'i wahardd (Erthygl 90 paragraff 1 o'r Rheoliad Rheoli mewn cydweithrediad ag Erthygl 42 paragraff 1(a) ac Erthygl 3 | 7 |

| | | |
|---|---|---|
| | paragraff 1(d) o Reoliad (EC) Rhif 1005/2008) | |
| 10 | Rhwystro gwaith swyddogion wrth gyflawni eu dyletswyddau i arolygu cydymffurfiad â mesurau cadwraeth neu reoli perthnasol neu waith arsylwyr i gyflawni eu dyletswyddau i arsylwi ar gydymffurfiad â rheolau perthnasol yr Undeb (Erthygl 90 paragraff 1 o'r Rheoliad Rheoli mewn cydweithrediad ag Erthygl 42 paragraff 1(a) ac Erthygl 3 paragraff 1(h) o Reoliad | 7 |
| (EC) Rhif 1005/2008 | | |
| 11 | Trosglwyddo o gwch i gwch neu gymryd rhan mewn gweithrediadau pysgota ar y cyd, cynorthwyo neu ail gyflenwi cychod pysgota a nodwyd fel rhai sydd wedi bod yn gysylltiedig â physgota IUU o dan Reoliad (EC) Rhif 1005/2008, yn benodol rhai sydd wedi'u cynnwys yn rhestr cychod IUU yr Undeb neu yn rhestr cychod IUU y mudiad rheoli pysgodfeydd rhanbarthol (Erthygl 90 paragraff 1 o'r Rheoliad Rheoli mewn cydweithrediad ag Erthygl 42 paragraff 1(a) ac Erthygl 3 paragraff 1(j) o Reoliad (EC) Rhif 1005/2008) | 7 |
| 12 | Defnyddio cwch pysgota heb genedligrwydd ac sydd felly'n gwch heb wladwriaeth yn unol â chyfraith ryngwladol (Erthygl 90 paragraff 1 o'r Rheoliad Rheoli mewn cydweithrediad ag Erthygl 42 paragraff 1(a) ac Erthygl 3 paragraff 1(l) o Reoliad (EC) Rhif 1005/2008) | 7 |

## Atodiad B: Categorïau troseddau amgylcheddol o dan gyfarwyddeb 2008/99/EC.

Mae'r ymddygiad canlynol yn cyfrif fel trosedd, os yn anghyfreithlon ac wedi'i gyflawni'n fwriadol neu o leiaf ag esgeulustod difrifol:

(a) gollwng, allyrru neu gyflwyno deunyddiau neu ymbelydredd ïoneiddio i'r aer, y pridd neu ddŵr, sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi marwolaeth neu anaf difrifol i unrhyw unigolyn neu ddifrod sylweddol i ansawdd yr aer, ansawdd y pridd neu ansawdd dŵr, neu i anifeiliaid neu blanhigion

(b) casglu, cludo, adennill neu waredu gwastraff, gan gynnwys goruchwylio gweithredoedd o'r fath ac ôl-ofal safleoedd gwaredu, a chan gynnwys gweithredoedd yr ymgymerir â hwy fel deliwr neu frocer (rheoli gwastraff), sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi marwolaeth neu anaf difrifol i unrhyw unigolyn neu ddifrod sylweddol i ansawdd yr aer, ansawdd y pridd neu ansawdd dŵr, neu i anifeiliaid neu blanhigion

(c) llwyth o wastraff, lle mae'r gweithgarwch hwn yn dod o fewn cwmpas Erthygl 2(35) o Reoliad (EC) Rhif 1013/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 14 Mehefin 2006 ar lwythi o wastraff (6) ac sy'n cael ei wneud mewn meintiau nad ydynt yn ddibwys, boed yn digwydd mewn un llwyth neu fel sawl llwyth yr ymddengys sy'n gysylltiedig

(d) gweithredu cyfarpar lle mae gweithgarwch peryglus yn cael ei gyflawni neu lle mae sylweddau neu baratoadau peryglus yn cael eu storio neu eu defnyddio ac sydd, y tu allan i'r cyfarpar, yn achosi neu sy'n debygol o achosi marwolaeth neu anaf difrifol i unrhyw unigolyn neu ddifrod sylweddol i ansawdd yr aer, ansawdd y pridd neu ansawdd dŵr, neu i anifeiliaid neu blanhigion

(e) cynhyrchu, prosesu, trafod, defnyddio, cadw, storio, cludo, mewnforio, allforio neu waredu deunyddiau niwclear neu sylweddau ymbelydrol peryglus eraill sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi marwolaeth neu anaf difrifol i unrhyw unigolyn neu ddifrod sylweddol i ansawdd yr aer, ansawdd y pridd neu ansawdd dŵr, neu i anifeiliaid neu blanhigion

(f) lladd, dinistrio, meddiant neu gymryd sbesimenau o rywogaethau o ffawna neu blanhigion gwyllt a warchodir, ac eithrio mewn achosion lle mae'r ymddygiad yn cynnwys meintiau dibwys o sbesimenau o'r fath ac sy'n cael effaith ddibwys ar statws cadwraeth y rhywogaethau

(g) masnachu mewn sbesimenau o rywogaethau o ffawna neu blanhigion gwyllt a warchodir neu ddeilliadau ohonynt, ac eithrio mewn achosion lle mae'r

ymddygiad yn cynnwys meintiau dibwys o sbesimenau o'r fath ac sy'n cael effaith ddibwys ar statws cadwraeth y rhywogaethau

(h) unrhyw ymddygiad sy'n achosi dirywiad sylweddol i gynefin o fewn safle a warchodir

(i) cynhyrchu, mewnforio, allforio, rhoi ar y farchnad neu ddefnyddio sylweddau sy'n teneuo'r osôn